**Dydd Sul y Pasg**

## Sul y Pasg: Dydd yr Atgyfodiad

**Darllen Salm 114; Eseia 12:1–6; Luc 24:1–11;**

**Marc 16:1–8; 1 Corinthiaid 15:12–20**

### Yr Atgyfodiad

Trwy ei atgyfodiad y mae gennym sicrwydd diysgog o ennill buddugoliaeth dros rym marwolaeth. Ni allai cadwynau ei angau ei ddal yn gaeth. Trwy ymaflyd yn ei holl nerth daeth yn rhydd gan falu'n yfflon arfau marwolaeth fel na allant ein niweidio mwyach.

Atgyfodiad Crist yw'r ffaith sicr, y gwirionedd cadarn, sy'n sylfaen nid yn unig fod ein hatgyfodiad ni i ddyfod, ond hefyd ein bywhad i fywyd newydd yn y presennol.

Agorodd ddrws Teyrnas Nefoedd i ni trwy ei esgyniad – drws a gaewyd i bawb yn Adda. Yn wir, aeth i mewn i'r nefoedd yn ein natur ni yn ein henwau megis, er mwyn i ni ynddo ef allu mewn gobaith feddiannu'r nefoedd yn awr ac eistedd gydag ef yn y nefolion leoedd. Er ein lles ni aeth ef i mewn i gysegr Duw – cysegr nid o waith llaw. Yn unol â'i swydd fel offeiriad tragwyddol aeth i mewn yno i fod yn eiriolwr a chyfryngwr parhaol drosom ni.

***John Calfin, addasiad Euros Wyn Jones***

## Atgyfodiad Crist – a'r tystion

'Pennod y claddu' y gelwir 1 Corinthiaid 15, ond bywyd ac atgyfodiad yw ei phwnc. Roedd rhai yng Nghorinth yn gwadu bod atgyfodiad y meirw, yn gwadu bod bywyd ar ôl hwn. Ateb hyn yw byrdwn y bennod.

Mae'n dechrau gydag atgyfodiad Crist sy'n warant o'n hatgyfodiad ninnau. Eithr ni ellir sôn am atgyfodiad Crist heb sôn am ei farw a'i gladdu. Mae'r apostol yn eu hatgoffa i ddechrau o'r efengyl a bregethasai iddynt (ac efengyl yr apostolion i gyd). Y peth cyntaf ynddi oedd marwolaeth Crist dros ein pechodau a'i gladdu a'i atgyfodi, a hyn oll fel yr oedd ysgrythurau'r Hen Destament wedi dweud amdano.

Mae'n werth sylwi mai dyma ganol yr efengyl. Nid cyfarwyddyd yw Cristnogaeth sut i lunio trefn wleidyddol neu economaidd neu gydwladol, nac yn wir gyfundrefn o foeseg i fyw wrthi. Yn gyntaf oll, trefn i faddau pechod ydyw. O'r berthynas newydd â Duw trwy faddeuant y deillia popeth Cristnogol ym mywyd y crediniwr. Dyma'r efengyl a dderbyniwyd (gweithred unwaith ac am byth) gan y Corinthiaid hyn (1 Corinthiaid 1:23); yr oeddynt yn sefyll ynddi, a thrwyddi yn cael eu cadw os oeddynt yn dal i lynu wrth y neges (Mathew 24:13).

Yna rhoir rhestr o dystion i atgyfodiad Crist. Nid rhestr gyflawn – ni sonnir am y gwragedd na'r ddau ar y ffordd i Emaus. Ni wyddom pa bryd y gwelwyd ef gan 'fwy na phum cant o frodyr ar un waith', ond mae'r apostol yn swnio'n hollol sicr o'i ffeithiau, gan gyfeirio bod y mwyafrif ohonynt yn dal yn fyw. Ar y ffordd i Ddamascus y gwelwyd ef gan Paul yntau 'megis gan un annhymig [wedi ei eni allan o amser]'. Mae'n ymwybodol iawn o'i annheilyngdod, ond eto'n canmol gras Duw a'i galluogodd i wneud cymaint dros Grist.

***Emyr Roberts***